# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 30.01.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams, (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Peter Read a W. Gareth Roberts

**Hefyd yn Bresennol:** Amlyn ab Iorwerth a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor)

**Cynrychiolwyr yr Heddlu:** Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu yr Heddlu; Cwnstabl Paul Tunnah

**Ymgeiswyr:** Mr a Mrs R & M Williams (perchnogion y Pen y Bont)

**Gwrthwynebwyr:** Mr J Atkinson; Mr E Gregory; Mr D. Livingstone; Mrs A Jones; Mrs B Williams.

**Ymddiheuriadau:** Cyng Glyn Roberts (Aelod Lleol)

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

**2. CAIS I WYRO TRWYDDED TAFARN PEN Y BONT, SARN MELLTEYRN**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu ei adroddiad yn rhoi manylion cais a dderbyniwyd gan berchennog tafarn Pen y Bont, Sarn Mellteyrn i ddiddymu amod sydd ar y drwydded bresennol i osod camera cylch-cyfyng tu allan i'r eiddo, ac hefyd i ymestyn oriau pryd y caniateir cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio a dawnsio o fewn yr eiddo hyd at 00.30awr bob dydd o'r wythnos. Nododd y Rheolwr Trwyddedu, er gwybodaeth, mai dewis yr ymgeiswyr oedd ychwanegu'r amod o osod camerau diogelwch ar yr eiddo.

Adroddwyd i'r heddlu ymateb i'r cais trwy nodi, oherwydd mai dim ond dau gwyn a dderbyniwyd ar sail niwsans cyhoeddus, nid yw'r tystiolaeth yn ddigonol i wrthwynebu'r cais am ymestyn yr oriau, ac nad oes gwrthwynebiad chwaith i ddiddymu'r amod ynglŷn â'r camera. Derbyniwyd nifer o lythyrau gan drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais am ymestyn yr oriau ar sail sŵn ychwanegol i darfu ar heddwch a niwsans cyhoeddus ac ymddygiad anghymdeithasol o ganlyniad i effaith alcohol ar gwsmeriaid y dafarn, ac hefyd yn gwrthwynebu tynnu'r amod o osod camerau diogelwch.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

Cafodd aelodau'r Is-bwyllgor wahoddiad i holi'r ymgynghorai

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r sylwadau a gyflwynwyd mewn llythyrau, adroddodd y gwrthwynebwyr:-

- eu bod wedi cwyno'n aml i'r heddlu am y sŵn a'r ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan gwsmeriaid y dafarn
- lle 'roedd y dafarn yn dafarn leol ddistaw, mae bellach, ar adegau, yn swnllyd iawn, gyda cherddoriaeth i'w glywed yn glir uwch lefel teledu mewn tŷ gerllaw
- nid yw'r heddlu yn ymweld â'r safle yn dilyn pob cwyn
- ni chafwyd ymateb gan swyddogion Gorfodaeth o ganlyniad i gwyno i'r Adran honno
- gwelir nifer o gwsmeriaid yn yfed tu allan i'r Pen y Bont ac yn gadael eu gwydrau

Mewn ymateb i'r honiadau, cyflwynwyd y sylwadau canlynol:

- Dau gwyn ffurfiol a dderbyniwyd gan yr heddlu
- Mewn perthynas â'r honiad i lanc dorri mewn i eiddo un o'r gwrthwynebwyr, nid oes tystiolaeth iddo fod yn yfed yn y Pen y Bont cyn y digwyddiad honedig
- Ni chaniateir yfed ar ôl amser yn y dafarn
- gwahoddir swyddog Iechyd yr Amgylchedd i wrando ar gerddoriaeth er mwyn mesur lefel y sŵn
- Dim ond deg gwaith mewn blwyddyn y cynhelir disgo yn y dafarn
- gwneir pob ymdrech i glirio unrhyw sbwriel cyn gynted ag y bo modd.
- Gwelir cost camerau cylch-cyfyng yn uchel ar gyfer cyn lleied o ddigwyddiadau

Trafodwyd y cais gan roi sylw arbennig i sylwadau pawb oedd yn bresennol a chyflwynwyd y sylwadau canlynol:-

- Trwy sicrhau bod cwsmeriaid yn mynd i'r cefn i ysmygu, efallai y byddai hynny'n eu hannog i ddefnyddio toiledau'r dafarn yn hytrach na gerddi cymdogion
- Byddai camerau cylch-cyfyng yn fanteisiol i'r perchnogion i gadw rheolaeth tu allan i'r eiddo
- Awgrymwyd y byddai caniatau 15 munud yn ychwanegol ar y drwydded yn ateb cais y perchennog
- Cytunwyd y byddai'n ofynnol i unrhyw gamera fod yn dderbyniol i'r Heddlu yn unol ag amodau'r drwydded gyfredol

**PENDERFYNWYD, yn ychwanegol i amodau'r drwydded bresennol:**

**i) caniatau i gwsmeriaid ysmygu tu cefn i'r eiddo yn unig wedi 23.00**

**ii) caniatau cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio a dawnsio o 11.00 hyd at 00.15awr Dydd Llun hyd at Ddydd Sul**

**iii) bod camera cylch-cyfyng digidol i'w osod o fewn tri mis tu allan i'r eiddo, blaen a chefn, yn gweithio i foddhad yr heddlu a'r awdurdod lleol**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30a.m. a daeth i ben am 11.40a.m.